# Ymchwilio a dadansoddi cynulleidfaoedd yn ymwneud â newyddiaduriaeth

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â defnyddio ymchwil a dadansoddi cynulleidfaoedd i ddenu aelodau cynulleidfaoedd i'r gwaith newyddiaduriaeth rydych ynghlwm ag o.

Mae'n ymwneud â deall ffigyrau cynulleidfaoedd ac ymchwil marchnad ynghyd â lle i ddod o hyd i wybodaeth o'r fath a sut i'w dehongli, gan gynnwys defnyddio technegau dadansoddeg data ac optimeiddio peiriant chwilio (SEO).

Mae hefyd yn ymwneud ag adnabod gwahanol frandiau ac arddulliau o newyddiaduriaeth ac adnabod y gynulleidfa briodol ar gyfer cynnwys golygyddol penodol ac amlgyfrwng perthnasol - a deall dichonolrwydd gwahanol lwyfannau dosbarthu.

Mae'r Safon hon yn berthnasol i'r holl bobl hynny sy'n gorfod mynd ati i ddefnyddio ymchwil cynulleidfaoedd fel rhan o'u gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ystyried gofynion eich cynulleidfa yn ystod holl gamau'r broses llunio cynnwys
2. defnyddio ffynonellau data cynulleidfaoedd a dadansoddeg data perthnasol a dibynadwy yn eich gwaith
3. cynnal gwaith dadansoddi a dehongli sylfaenol sy'n dwyn i ystyriaeth cryfderau a chyfyngiadau ffigyrau cynulleidfaoedd a data ymchwil
4. defnyddio data ymchwil cynulleidfaoedd gan ffynonellau dibynadwy i adnabod cynulleidfaoedd targed ar gyfer brandiau, sianeli neu gynnwys penodol
5. disgrifio priodweddau eich cynulleidfa darged mewn arddulliau priodol
6. datblygu, brandiau, arddull, cynnwys golygyddol a dewisiadau o lwyfannau dosbarthu sy'n defnyddio gwybodaeth ymchwil ar gynulleidfaoedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. egwyddorion, cryfderau a chyfyngiadau technegau ymchwil defnyddwyr a chynulleidfaoedd
2. sut mae modd defnyddio dadansoddeg data i adnabod tueddiadau ac ymgysylltu â'r gynulleidfa
3. egwyddorion sylfaenol demograffig a segmentu'r farchnad, gan gynnwys adnabod grwpiau cynulleidfaoedd neu ddefnyddwyr penodol gyda phriodweddau ar y cyd
4. y systemau metrig i fesur ymgysylltu â'r gynulleidfa gan gynnwys cyfaint, cyflymder ac amrywiaeth
5. y gynulleidfa darged bresennol neu ddichonol ar gyfer y farchnad benodol rydych yn gweithio ynddi
6. cymhelliant, agweddau ac ymddygiadau eich cynulleidfa targed
7. sut a pham fod cynnwys golygyddol penodol a'i fodd dosbarthu wedi'u bwriadu i apelio at wahanol gynulleidfaoedd targed
8. sut caiff gwybodaeth defnyddwyr a chynulleidfaoedd ei chasglu a sut i'w dehongli a'i defnyddio yn eich gwaith
9. ffynonellau allweddol gwybodaeth am ddefnyddwyr a chynulleidfaoedd wrth gasglu data
10. ffynonellau gwybodaeth mewnol ac allanol ynghylch farchnadoedd, cynulleidfaoedd, digwyddiadau a thueddiadau
11. lle daw traffig chwilio a thechnegau optimeiddio peiriant chwilio (SEO)

SKSJ2

Ymchwilio a dadansoddi cynulleidfaoedd yn ymwneud â newyddiaduriaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSJ2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Newyddiaduriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Newyddiaduriaeth, Ymchwil, Data, Cynulleidfa, Brandiau |